



NatWest
Group

Arloesi ar Waith: Cymru

Growing
Together



Cyfle Cymru i fasnacheiddio

Mae Cymru wedi datblygu economi arloesi amrywiol sydd wedi'i gwreiddio mewn gweithgynhyrchu uwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, gwyddorau bywyd, ynni glân, technoleg ddigidol ac arloesi dan arweiniad ymchwil. Yn gartref i 878 o fusnesau arloesol a 404 busnes sydd wedi derbyn grantiau arloesi cyhoeddus, mae Cymru wedi datblygu cryfderau sylweddol ym maes arloesi sy'n cynnal swyddi, buddsoddiad a thwf economaidd ledled y wlad.

Mae gweithgaredd arloesi wedi'i wasgaru ar hyd a lled Cymru ac yn cael ei gefnogi gan brifysgolion, sefydliadau ymchwil, clystyrau diwydiannol a busnesau technoleg sy'n tyfu. O weithgynhyrchu uwch yn y Gogledd-Ddwyrain a chyfleoedd ynni glân newydd yn y De, i arbenigedd mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd sydd ar flaen y gad yn fyd-eang, mae busnesau Cymreig yn datblygu cynnyrch a gwasanaethau arloesol sydd â'r potensial i gystadlu mewn marchnadoedd byd-eang.

Mae Cymru wedi dangos gallu cryf i greu busnesau arloesol a denu buddsoddiad. Ymhlith y cwmnïau sydd wedi cael cymorth grant, mae 47 wedi cyrraedd pwynt ymadael, 106 wedi sicrhau buddsoddiad ecwiti dilynol, a 24 wedi dangos arwyddion eu bod yn uwchraddio. Mae'r rhanbarth hefyd wedi denu dros £1.28 biliwn mewn buddsoddiad ecwiti dilynol, sy'n arwydd o gryfder ei sylfaen arloesi a'r gallu i ddenu cyfalaf preifat.

Fodd bynnag, mae prif ganfyddiad adroddiad O Arloesi i Gael Effaith NatWest i'w weld yng Nghymru hefyd. Er bod y genedl yn parhau i greu cwmnïau arloesol a chyfleoedd masnachol, mae potensial sylweddol o hyd i helpu rhagor o fusnesau i drosi arloesi yn dwf sy'n cael ei gynnal. Mae ein gwaith dadansoddi wedi canfod 160 o fusnesau sy'n parhau i fasnachu ac arloesi ond sydd, hyd yma, heb sicrhau buddsoddiad dilynol, cyrraedd pwynt ymadael na dangos arwydd eu bod yn uwchraddio. Rydym yn cyfeirio at y busnesau hyn fel y garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth. Nid busnesau aflwyddiannus mohonynt. Yn hytrach, maent yn garfan o fusnesau arloesol sydd, hyd yma, heb drosi arloesi yn dwf masnachol mesuradwy.


Gyda 39.6% o dderbynwyr grantiau yn y garfan hon, mae'r garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth yng Nghymru ychydig uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Deyrnas Unedig, sef 38.1%. Yr awgrym felly ydy, er bod llawer o fusnesau Cymreig yn arloesi'n llwyddiannus, bod cyfle o hyd i gryfhau'r llwybrau sy'n helpu cwmnïau i fasnacheiddio cynnyrch newydd, sicrhau buddsoddiad ac uwchraddio eu gweithgaredd.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn awgrymu bod masnacheiddio llwyddiannus yn dibynnu ar fwy na chyllid yn unig. Roedd busnesau yn gyson yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyrraedd cwsmeriaid, galluoedd arweinyddiaeth, llwybrau i'r farchnad,

arbenigedd masnachol ac ecosystemau arloesi cryf. Bydd helpu cwmnïau i ganfod eu ffordd drwy'r heriau hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod Cymru yn cipio mwy o'r gwerth economaidd a gaiff ei greu gan arloesi.

Mae Cymru ar ei hennill hefyd o fod â sylfaen gref o ran ymchwil a phrifysgolion. Mae'r genedl yn gartref i 201 o gwmnïau deillio academiaidd, sy'n nifer sylweddol mewn perthynas â maint ei heconomi arloesi. Fodd bynnag, dim ond 68 o'r busnesau hyn sydd wedi derbyn cyllid arloesi cyhoeddus hefyd, sy'n gyfran is na nifer o ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod busnesau addawol sydd â chyfran uchel o'u gweithgaredd yn seiliedig ar ymchwil yn gallu cael y gefnogaeth, y buddsoddiad a'r rhwydweithiau sydd eu hangen er mwyn masnacheiddio a thyfu.

Daw'r canfyddiadau hefyd ar adeg pan mae llunwyr polisi yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi twf sy'n cael ei arwain gan arloesi ledled Cymru, gan gynnwys cynigion ar gyfer asiantaeth datblygu newydd. Gallai corff o'r fath chwarae rhan bwysig yn helpu busnesau arloesol i gael gafael ar gyllid, datblygu marchnadoedd newydd, denu buddsoddiad ac uwchraddio'n llwyddiannus, gan ategu cryfderau presennol Cymru mewn ymchwil, entrepreneuriaeth ac arloesi.



Troi Arloesi yn Dwf Economaidd

Y cyfle sy'n wynebu Cymru, felly yw nid yn unig creu rhagor o arloesi, ond helpu rhagor o fusnesau arloesol i lwyddo i uwchraddio'n fasnachol. Byddai cefnogi'r garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth i dyfu yn cryfhau cynhyrchiant, yn creu swyddi â sgiliau ac yn denu buddsoddiad pellach. Mae llawer o'r sylfeini sy'n angenrheidiol ar gyfer twf sy'n cael ei arwain gan arloesi eisoes yn eu lle yng Nghymru. Yr her nawr ydy sicrhau bod rhagor o fusnesau arloesol yn gallu cael y cyllid, yr arbenigedd a'r cyfleoedd masnachol sydd eu hangen i drosi arloesi yn effeithiau economaidd hirdymor.

I gael gweld y dadansoddiad a'r argymhellion polisi yn llawn, sganiwch y cod QR i gael darllen adroddiad O Arloesi i Gael Effaith NatWest.



(1) Ffynhonnell: Beauhurst. Gweler y dudalen nesaf am ragor o wybodaeth.

Cymru mewn rhifau¹

878

o fusnesau arloesol.

201

o gwmnïau deillio academiaidd.

47

o fusnesau wedi cyrraedd pwynt ymadael.

Mae **39.6%**

o'r cwmnïau sydd wedi cael cymorth grant yn y garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth (cyfartaledd y DU: 38.1%).

404

busnes wedi derbyn grantiau arloesi cyhoeddus.

106

o fusnesau wedi sicrhau buddsoddiad ecwiti dilynol.

160

o fusnesau yn y garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth.

£1.28bn

mewn buddsoddiad ecwiti dilynol wedi'i ddenu gan gwmnïau sydd wedi cael cymorth grant.

Cip ar Gymru

- ▶ Mae **26.2%** o'r cwmnïau sydd wedi cael cymorth grant wedi sicrhau buddsoddiad dilynol, sy'n cyfateb yn fras i gyfartaledd y DU.
- ▶ Mae **11.6%** o gwmnïau wedi cyrraedd pwynt ymadael, sy'n uwch na chyfartaledd y DU.
- ▶ **201** o gwmnïau deillio academiaidd, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd sylfaen ymchwil prifysgolion Cymru.
- ▶ Mae **160** o fusnesau yn parhau yn y garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth, sy'n rhoi cyfle sylweddol ar gyfer twf.
- ▶ Cryfderau rhanbarthol cryf ym meysydd gweithgynhyrchu uwch, lled-dargludyddion, gwyddorau bywyd, ynni glân a thechnolegau digidol.

Mae'r garfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth yn cyfeirio at fusnesau sy'n parhau'n weithredol ond sydd, hyd yma, heb sicrhau buddsoddiad dilynol, cyrraedd pwynt ymadael na dangos arwydd cydnabyddedig eu bod yn uwchraddio.

Gwybodaeth ychwanegol

Darparwyd y dadansoddiad o grantiau arloesi cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn yr adroddiad hwn gan Beuhurst. Mae'r set ddata sylfaenol yn cynnwys cwmnïau yn y Deyrnas Unedig sydd wedi derbyn o leiaf un grant arloesi a ddatgelwyd yn gyhoeddus ers 2011, gan gynnwys cyllid Innovate UK. Mae'r dadansoddiad yn ystyried 12,381 o dderbynwyr grantiau ac yn tracio eu canlyniadau masnachol wedi hynny drwy ddefnyddio data Beuhurst ar lefel cwmnïau.

Gosodwyd y cwmnïau mewn un yn unig o blith pum categori: Wedi Cyrraedd Pwynt Ymadael (wedi'u caffael, eu rhestru neu eu gwerthu i berchnogion newydd), Ecwiti Dilynol (wedi sicrhau buddsoddiad ecwiti ychwanegol), Uwchraddio (nodwyd eu bod wedi cyflawni twf ar raddfa fawr heb ddigwyddiad ecwiti a gofnodwyd), carfan arloesi sydd heb ddwyn ffrwyth (yn dal i fasnachu ond heb gofnod o ymadael, ecwiti dilynol nac arwydd o uwchraddio), ac Wedi Peidio (ddim yn gweithredu mwyach). Ystyriwyd y canlyniadau yn y drefn honno, gan sicrhau mai unwaith yn unig y cafodd pob cwmni ei gyfrif.

Mae'r dadansoddiadau rhanbarthol yn seiliedig ar gyfeiriadau cofrestredig y cwmnïau. Mae'r ffigyrau ecwiti dilynol yn cynnwys pob buddsoddiad ecwiti a dderbyniwyd gan dderbynwyr grantiau a dylid dehongli hynny fel cysylltiad yn hytrach na mesur uniongyrchol o effaith grantiau. Drwy gydol yr adroddiad, mae'r term "Carfan Arloesi

sydd Heb Ddwyn Ffrwyth" yn cyfeirio at gwmnïau sy'n parhau'n weithredol ond nad ydynt, hyd yma, wedi dangos canlyniad masnacheiddio sydd wedi'i dracio.

Ymwadiad

Darperir yr adroddiad hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ffurfio unrhyw gyngor ariannol, cyfreithiol, buddsoddi na phroffesiynol; eu barn eu hunain yw unrhyw safbwyntiau a fynegwyd gan y rhai a gyfwelwyd/ a ddyfynnwyd gan unigolion ac nid ydynt o anghenraid yn cyfateb i safbwyntiau NatWest.

Mae pob cyfeiriad a dolen at drydydd partïon yn yr adroddiad hwn yn annibynnol ac nid yw'r Banc yn gyfrifol am gynnwys eu gwefannau.

Hawlfraint © National Westminster Bank plc 2026

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o nodau masnach sy'n eiddo i'n grŵp. Mae'r nodau masnach hynny yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, logo NatWest, NatWest Markets a NatWest. Os ydych yn ansicr a yw eitem yn nod masnach i NatWest, NatWest Markets neu aelod o'n grŵp, cysylltwch â ni i gael cadarnhad yng nghyfeiriad y swyddfa gofrestredig isod.

NatWest Group plc
36 St Andrew Square
Caeredin, EH2 2YB

Uned Mewnwelediadau Polisi Cyhoeddus Grŵp NatWest

Mae tîm Mewnwelediadau Polisi Cyhoeddus Grŵp NatWest yn rhoi llais i fusnesau ym maes polisi cyhoeddus. Drwy gyfuno mewnwelediad cwsmeriaid, dadansoddi data ac arbenigedd o bob rhan o rwydwaith NatWest ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, rydym yn darparu dadansoddiadau ar sail tystiolaeth ynglŷn â'r materion sy'n dylanwadau ar dwf a ffyniant economaidd.

Gyda chwsmeriaid a chydweithwyr ym mhob un o genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, rydym yn darparu mewnwelediadau sy'n helpu llunwyr polisi cenedlaethol, datganoledig, rhanbarthol a lleol i ddeall y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r economi go iawn yn well.

Am unrhyw ymholiadau neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â publicpolicyinsights@natwest.com



Gyda diolch i Enterprise Nation a gefnogodd y gwaith o ddrafftio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.



NatWest
Group

NatWest Group plc

36 St Andrew Square
Caeredin, EH2 2YB